Y Comisiwn Etholiadol

**Trosolwg testun – DU a GI**

Refferendwm ar y system bleidleisio Seneddol 2011

# Trosolwg o ymgyrchoedd refferendwm

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm sydd eisiau gwybod sut mae refferenda'n cael eu trefnu a phwy sy'n gwneud beth.

Cynnwys:


Cyflwyniad i refferenda

Pwy sy'n gwneud beth mewn

Ymgyrchwyr mewn refferenda

Ymgyrchwyr arweiniol

## Termau ac ymadroddion rydyn ni'n eu defnyddio

Rydyn ni'n '**rhaid**' pan ydyn ni'n cyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydyn ni'n defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau rydyn ni'n eu hystyried i fod yn isafswm ar gyfer arfer da, ond nad ydyn nhw'n ofynion cyfreithiol.

Does dim rhaid ichi ddilyn y canllawiau hyn, ond os ydych chi, fel arfer byddwch chi'n gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hagwedd tuag at orfodi

Os nad ydych chi'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol efallai byddwch chi neu eich mudiad yn agored i sancsiynau sifil neu droseddol. Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch agwedd y Comisiwn tuag at orfodi ar www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

# Trosolwg o ymgyrchoedd refferendwm

## Mae'r ddogfen hon ar gyfer:

Ymgyrchwyr refferendwm sydd eisiau dod o hyd i wybodaeth allweddol ynghylch sut mae refferenda'n cael eu trefnu.

## Mae'r ddogfen yn ymdrin a:

- Cyflwyniad i refferenda
- Pwy sy'n gwneud beth mewn refferendwm
- Ymgyrchwyr mewn refferenda
- Rolau a chyfrifoldebau ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig
- Grwpiau ymgyrchu arweiniol
- Pleidleisio a chyfrif

## Dogfenni cysylltiedig:

- Cyflwyniad i ymgyrchu mewn refferendwm
- Trosolwg o roddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm
- Trosolwg o fenthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm
- Y pethau 'i'w gwneud' ac i 'beidio â'u gwneud' yn ystod ymgyrch refferendwm
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – y broses o ddynodi
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – pleidleisio drwy'r post
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – yr etholiad
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – y cyfrif

## Papurau arbenigol

- Papur arbenigol: Cyrff cyhoeddus a deunydd refferendwm

2

# Crynodeb

Dylid cynnal refferenda mewn ffordd sy'n hybu hyder ymhlith y cyhoedd. Dylen nhw fod yn gredadwy, yn dryloyw ac yn agored i'w harchwilio.

Mae'r ddogfen hon yn eich arwain trwy'r wybodaeth allweddol ynghylch sut mae refferenda'n cael eu trefnu a phwy sy'n gwneud beth.

# Cyflwyniad

Mae refferendwm yn ddigwyddiad ble gofynnir i etholwyr bleidleisio ar destun neu gynnig neilltuol, ar ffurf cwestiwn.

Er enghraifft, yn 1975 cynorthwyodd refferendwm ar draws y DU i benderfynnu a ddylai'r DU aros fel aelod o'r Gymuned Ewropeaidd.

Mae gennym gyfrifoldebau statudol ynghylch refferenda a gynhelir o dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Refferenda PPERA).

Ein nodau ar gyfer refferenda yw:

- Dylen nhw gael eu trefnu'n dda gan gynhyrchu canlyniadau sy'n cael eu derbyn.
- Dylai fod uniondeb a thryloywder ynghylch ariannu a gwario yn yr ymgyrch.

Mae'r ddogfen hon yn drosolwg cyffredinol. Byddwn ni'n cyhoeddi canllawiau penodol sy'n dangos terfynau amser, cyfyngderau gwariant a gwybodaeth arall ar gyfer pob refferendwm.

**Pwysig**

Dydy'r canllawiau hyn ddim yn perthyn i refferenda llywodraeth leol gan nad ydyn ni'n eu rheoleiddio.

4

# Pwy sy'n gwneud beth mewn refferendwm

Mae amryw bobl a chyrff sydd â rolau swyddogol mewn refferenda PPERA.

Y rhai hyn yw:

- Y Comisiwn Etholiadaol
- Y Prif Swyddog Cyfrif
- Swyddogion Cyfrif
- Swyddogion Cofrestru Etholiadol

## Y Comisiwn Etholiadaol

O dan PPERA rydyn ni'n gyfrifol am:

- Sylwi ar eiriad cwestiwn y refferendwm.
- Cofrestru ymgyrchwyr sydd eisiau gwario mwy na £10,000.
- Argymell cyfyngderau gwariant i'r ymgyrch ar gyfer refferenda nad ydyn nhw ledled y DU.
- Dynodi grwpiau ymgyrchu arweiniol i gynrychioli pob canlyniad.
- Talu grantiau statudol i grwpiau ymgyrchu arweiniol
- Rheoleiddio a monitro gwariant yr ymgyrch, rhoddion a benthyciadau,
- Adrodd ar weinyddu'r refferendwm
- Cyhoeddi cofnodion rhoddion, benthyciadau a gwariant yr ymgyrchwyr cofrestredig ar ôl yr etholiad.

## Y Prif Swyddog Cyfrif

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif yn gyfrifol am gyfarwyddo'r refferendwm a sicrhau cywirdeb y canlyniad cyfan. Fel arfer y Prif Swyddog Cyfrif yw naill ai Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol neu berson a benodir gan y Cadeirydd.

Os gynhelir y refferendwm yng Ngogledd Iwerddon yn unig, y Prif Swyddog Etholiadol fydd y Prif Swyddog Cyfrif.

Mewn rhai refferenda, efallai bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn gallu penodi dirprwy, neu Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol i gynorthwyo â'u cyfarwyddo.

## Swyddogion Cyfrif

Mae Swyddogion Cyfrif yn gweinyddu'r broses bleidleisio yn eu hardaloedd lleol. Mae eu dyletswyddau'n cynnwys dosbarthu papurau pleidleisio, cyfarwyddo gorsafoedd pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau sy'n cael eu bwrw yn eu hardal.

Mae gan Swyddog Cyfrif rôl sy'n debyg i rôl Swyddog Canlyniadau mewn etholiad.

## Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Ym Mhrydain Fawr, penodir Swyddogion Cofrestru Etholiadol gan awdurdodau Lleol. Maen nhw'n gyfrifol am y gofrestr etholwyr. Hefyd maen nhw'n rheoli ceisiadau am bleidleisio post a phleidleisio dirprwy (pleidleisio absennol) a maen nhw'n cynhyrchu rhestrau o bleidleiswyr absennol.

Yng Ngogledd Iwerddon, y Prif Swyddog Etholiadol sy'n gyfrifol am gofrestru etholiadol.

# Ymgyrchwyr mewn refferenda

Yn ystod refferendwm, gall unigolion neu gyrff ymgyrchu dros ganlyniad neilltuol.

## Trefnu ymgyrch

Rydyn ni'n annog i bobl gymryd rhan, gan ein bod ni eisiau gweld refferendwm deg ag ymgyrch weithredol a deallus. Sut bynnag, mae rhai rheolau ynghylch yr hyn y gallwch ei wneud, a sut rydych chi'n cyhoeddi eich ymgyrch.

Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y rhain yn Y pethau ‘i'w gwneud’ ac i ‘beidio â'u gwneud’ yn ystod ymgyrch refferendwm. Hefyd mae'r ddogfen hon yn cynnwys awgrymiadau ynghylch arfer da i'ch helpu chi â'ch ymgyrch.

### Pryd fydd angen ichi gofrestru gyda ni

Os ydych chi eisiau gwario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm mae rhaid ichi gofrestru gyda ni i fynd yn 'ymgyrchwr cofrestredig'. Rydyn ni'n agor y cofrestrau ar ddechrau cyfnod y refferendwm.

Mae rhaid ichi ddweud wrthyn ni ba ochr o'r drafodaeth rydych chi'n ymgyrchu drosti.

# 6

### Buddion cofrestru gyda ni

Mae cofrestru fel ymgyrchwr yn rhoi ichi

- Terfyn gwariant sy'n uwch na £10,000
- Mynediad i'r gofrestr etholwyr i helpu'ch ymgyrch
- Yr hawl i gynrychiolwyr fynychu sesiynau agor pleidleisiau post, gorsafoedd pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau.

Pwysig

Mae angen i bleidiau gwleidyddol neu drydydd partïon gofrestru gyda ni o hyd ar gyfer pob refferendwm.

## Pwy sy'n gallu cofrestru fel ymgyrchwr?

Dim ond y mathau dilynol o unigolion neu gyrff sy'n gallu cofrestru fel ymgyrchwyr:

- Unigolyn sy'n byw yn y DU neu sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholwyr yn y DU.
- Plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru yn y DU.
- Cwmni sy'n gofrestredig yn y DU a sy'n ymgorfforedig yn yr UE a sy'n cynnal busnes yn y DU.
- Undeb Llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU.
- Cymdeithas Adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU.
- Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU. sy'n cynnal busnes yn y DU.
- Cymdeithas lesiant, ddiwydiannol, ddarbodus neu adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU.
- Cymdeithas anghorfforedig sy'n seliedig yn y DU a sy'n cynnal rhan fwyaf ei busnes neu ei weithgareddau eraill yn y DU.

Mae cyfyngiadau ar y wybodaeth y gellir ei dosbarthu gan gyrff cyhoeddus yn ystod refferendwm. Gweler y ddogfen hon:

- Papur arbenigol – Cyrff cyhoeddus a deunydd refferendwm

## Ariannu a gwario yn y refferendwm

Mae rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig gydymffurfio â'r rheolau cyfreithiol ar wariant, rhoddion a benthyciadau o dan PPERA. Mae'r rhain yn ymdrin â'r rhan fwyaf o weithgareddoedd ymgyrchu a maen nhw'n cynnwys terfynau ar faint y gallwch chi ei wario.

Hefyd mae rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig ddatgan rhoddion, benthyciadau a gwariant yr ymgyrch inni ar ôl y refferendwm.

### Pleidiau gwleidyddol

Mae rhaid i bleidiau gwleidyddol sy'n cofrestru fel ymgyrchwyr barhau i ddatgan rhoddion a benthyciadau inni bob chwarter fel sy'n arferol.

Mae rhaid iddyn nhw gyflwyno eu cofnodion gwariant ar ôl y refferendwm.

Allan nhw ddim gwneud rhoddion i ymgyrchwyr cofrestredig eraill, heblaw am grŵp ymgyrchu arweiniol dynodedig.

I gael rhagor o wybodaeth gweler y dogfenni hyn:

- Trosolwg o wariant refferendwm
- Trosolwg o roddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm
- Trosolwg o fenthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm

# Rolau a chyfrifoldebau ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig

## Rolau sy'n gysylltiedig ag ymgyrchwyr cofrestredig

### Person cyfrifol

Mae rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig gofrestru 'person cyfrifol' gyda ni. Mae'r person hwn yn gyfrifol am sicrhau bod cyllid ymgyrchwr yn cydymffurfio â'r rheolau ar wariant, rhoddion a benthyciadau.

Os yw plaid gwleidyddol yn cofrestru ymgyrchwr, eu trysorydd cofrestredig fydd eu 'person cyfrifol'.

### Asiantau refferendwm

Efallai bydd y rheolau ynghylch asiantau refferendwm, a'u rôl o fewn refferendwm, yn amrywio ymhob refferendwm.

Gall asiantau refferendwm benodi pobl i fynychu gorsafoedd pleidleisio a'r cyfrif o bleidleisiau.

Bydd rhagor o wybodaeth yn ein canllawiau sy'n benodol i refferenda.

Bydd terfyn amser ar gyfer penodi asiantau refferendwm. Caiff hyn ei gyhoeddi hefyd yn ein canllawiau sy'n benodol i refferenda.

### Asiantau pleidleisio drwy'r post

Gall asiantiaid pleidleisio drwy'r post arsylwi ar agor pleidleisiau post sydd wedi'u dychwelyd.

### Asiantiaid pleidleisio

Gall asiantiaid pleidleisio gael mynediad i orsafoedd pleidleisio i wirio bod gweithdrefnau'n cael eu dilyn yn gywir.

### Asiantiaid cyfrif

Gall asiantiaid cyfrif arsylwi ar y broses gyfrif (ar lefel lleol) ar ran ymgyrchwr i wirio bod y cyfrif yn cael ei wneud yn y modd cywir.

I gaerl rhagor o wybodaeth, gweler ein safwe i gael canllawiau sy'n benodol i refferenda.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y dogfenni hyn:

- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – pleidleisio drwy'r post
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – y bleidlais
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – y cyfrif

8

# Cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag ymgyrchwyr cofrestredig

## Gwariant ymgyrch refferendwm

Mae gwariant refferendwm yn cynnwys eitemau a gweithgareddau a ddefnyddir at ddibenion eich ymgyrch.

O dan PPERA, mae rhaid ichi ddilyn rheolau a therfynau ar wariant ymgyrch yn y cyfnod sy'n arwain at refferendwm. Hefyd mae rhaid ichi gofnodi eich gwariant a'i ddatgan inni.

I gael rhagor o wybodaeth gweler y ddogfen hon:

- Trosolwg o wariant refferendwm

## Cyllid ymgyrch

O dan PPERA, mae rheolau ynghylch derbyn rhoddion neu fenthyciadau ar gyfer gwariant refferendwm.

Mae 'rhoddion' yn cynnwys arian, nwyddau neu wasanaethau a roddir i ymgyrchwr heb dâl neu ar delerau anfasnachol.

Mae 'benthyciadau' yn cynnwys gwarannau, gwarantau a chyleusterau credyd megis cardiau credyd a gorddrafftiau.

Rydyn ni'n defnyddio 'buddion' i gyfeirio at roddion a benthyciadau ill dau.

Gallwch chi dderbyn buddion â gwerth o fwy na £500 oddi wrth rhai ffynonnellau yn unig, syddd yn bennaf yn seiliedig yn y DU yn unig. Rydyn ni' galw'r rhain 'ffynonnellau caniataol'.

Mae rhaid datgan unrhyw fuddion sy'n werth mwy na £7,500 inni. Mae hyn yn cynnwys buddion sy'n werth mwy na £500 oddi wrth yr un ffynhonnell sy'n adio i wneud dros £7,500.

Cyn eich bod chi'n derbyn rhodd mae rhaid ichi gymryd pob cam rhesymol i wirio a yw'r ffynhonnell yn ganiataol. Mae rhaid ichi gyflawni'r gwiriadau hyn o fewn 30 diwrnod o dderbyn y rhodd.

Os nad yw'r rhoddwr yn ganiataol, mae rhaid ichi ddychwelyd y rhodd o fewn yr un cyfnod o 30 diwrnod.

Mae rhaid ichi wneud gwiriadau ar fenthycwyr cyn eich bod yn cytuno ar y benthyciad.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y dogfenni hyn:

- Trosolwg o roddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm
- Trosolwg o fenthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm

**Pwysig**

Mae pleidiau gwleidyddol cofrestredig yn parhau i ddatgan rhoddion a benthyciadau bob chwarter fel sy'n arferol. Does dim angen iddyn nhw ddatgan ar wahân mewn refferendwm.

# Grwpiau ymgyrchu arweiniol

Gallwn ni benodi grŵp ymgyrchu arweiniol ar gyfer pob canlyniad yn y refferendwm.

Maen nhw'n elwa o derfyn gwariant uwch, anfon gwybodaeth yn rhad ac am ddim i bleidleiswyr, darllediadau ymgyrch refferendwm, defnydd heb dâl o rai ystafelloedd cyhoeddus a grant oddi wrthyn ni.

Gall ymgyrchwyr cofrestredig ymgeisio i ni, y Comisiwn Etholiadol, i gael eu dynodi fel grwpiau ymgyrchu arweiniol.

O dan PPERA, fel arfer mae rhaid gwneud ceisiadau o fewn 28 diwrnod o ddechrau cyfnod y refferendwm. Efallai bydd y terfyn amser yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau ymhob refferendwm.

Mae rhaid inni benodi'r ymgyrchwyr sy'n cynrychioli orau y rhai hynny sy'n ymgyrchu dros y canlyniad perthnasol. Oherwydd hyn, os hoffech chi ymgeisio i gael eich dynodi, efallai hoffech chi ystyried ffurfio corff mantell â grwpiau eraill sy'n ymgyrchu dros y canlyniad rydych chi'n ei gefnogi.

Os ydyn ni'n ystyried nad oes neb yn cynrychioli'r rhai hynny sy'n ymgyrchu dros ganlyniad yn iawn, allwn ni ddim dynodi grwpiau ymgyrchu arweiniol.

Mae rhaid inni ddynodi grwpiau ymgyrchu arweiniol ar gyfer dwy ochr canlyniad y refferendwm, neu dim o gwbl.

I gael rhagor o wybodaeth gweler:

- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – y broses o ddynodi

# Pleidleisio a chyfrif

Mae pleidleisio mewn refferenda'n dilyn proses sy'n debygol i bleidleisio mewn etholiadau. Gall etholwyr bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio, drwy'r post neu drwy dirprwy.

Bydd Swyddogion Cyfrif yn cynnal cyfrifon ar lefel lleol gan roi eu canlyniadau i'r Prif Swyddog Cyfrif. Unwaith bod pob cyfrif wedi gorffen, bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn cyhoeddi'r canlyniad cyfan.

I gael rhagor o wybodaeth gweler y dogfenni hyn:

- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – y bleidlais
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – y cyfrif

# 10

## Sut y gallwn ni helpu

Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfenni cyfarwyddyd ein bod wedi'u hawgrymu yn y ddogfen hon, neu allwch chi weld ystod lawn ein canllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein safwe.

Os yw'n haws, gallwch chi gysylltu â ni hefyd ar un o'r rhifau ffôn neu un o'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydyn ni yma i'ch helpu, felly cysylltwch os gwelwch yn dda.

Ffoniwch ni ar:

- **Lloegr**: 0207 271 0616 pef@electoralcommission.org.uk
- **Yr Alban**: 0131 225 0200 infoscotland@electoralcommission.org.uk
- **Cymru**: 029 2034 6800 infowales@electoralcommission.org.uk
- **Gogledd Iwerddon**: 0289 089 4020 infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ymwelwch â ni ar www.electoralcommission.org.uk

Rydyn ni'n croesawu adborth ar ein canllawiau - ebostiwch ni ar: pef@electoralcommission.org.uk

### Cyfieithiadau a fformatau eraill

Am wybodaeth ar gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall neu mewn fersiwn print-mawr neu Braille cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol os gwelwch yn dda:

Ffôn: 020 7271 0500
Ebost: publications@electoralcommission.org.uk